

BA3 ADDYSG GYNRADD GYDA SAC

Cyfnewid Cyfnod

Canllaw

17 & 23 – 24 Mawrth 2023

Cyflwyniad:

Byddwch yn cael cyfle i dreulio peth amser yn archwilio arfer ysgol uwchradd i brofi addysgu a dysgu o fewn cyfnod oedran a chyd-destun gwahanol i'r cyfnod oedran o'ch dewis.

Ffocws:

Trefniadau trosglwyddo


Dyddiadau:

Dydd Gwener, 17 Mawrth – mewnbwn wedi'i drefnu gan y Brifysgol

Dydd Iau, 23 Mawrth a dydd Gwener, 24 Mawrth – mewnbwn wedi'i drefnu gan Ysgolion Arweiniol


Dull:

Yn debyg i weithgareddau eraill, mae gan y 'Profiad Cyfnewid Cyfnod' dri chyfnod o gymhwyso ymarfer, lle y daw gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol at ei gilydd a chaiff arfer bersonol ei thrawsnewid – gweler isod.



Trefn:

- *Cwrdd* â'r syniadau **arlein gyda'r Brifysgol** (17.3.23)
- *Profi*'r syniadau **mewn ysgol uwchradd** drwy archwilio dogfennaeth a thrwy arsylwi ystod o ddosbarthiadau a siarad gyda dysgwyr ac aelodau staff (23 & 24.3.23)
- *Rhannu* a gwerthuso syniadau yn y PDP (24.3.23)



Tystiolaeth o'r Cyfnewid Cyfnod

Disgwylir i ddarpar athrawon adfyfrio ar y profiad a chwblhau TPP Tab 6 yn gysylltiedig â'r Safonau SAC perthnasol.

AMSERLEN AWGRYMEDIG:

Gall ysgolion drefnu'r diwrnod mewn ffordd sy'n addas i'w cyd-destun nhw.

23 & 24 Mawrth

PROFI A RHANNU TROSGLWYDDO

Sesiwn	Gweithgaredd	Cynnwys Awgrymedig
Sesiwn 1	Teitl: Trefniadau Trosglwyddo Darpariaeth gan: Aelod/au staff perthnasol	- Yr ysgol i rannu gwybodaeth gyda'r darpar athrawon am ei dull o gynllunio ar gyfer trosglwyddiadau (i mewn, yn ystod ac ymlaen) gan gynnwys gwybodaeth am: ➤ Bolisi yr ysgol ➤ Y staff cysylltiedig ➤ Rhanddeiliaid eraill ➤ Brif amcanion ➤ Cyfarfod aelod o staff– datblygu dealltwriaeth o arferion trosglwyddo (gan gynnwys ADY a Lles) ➤ Cyfarfod ag aelod/au staff sydd â chyfrifoldeb am drosglwyddo (trafod arferion beunyddiol a sut y gweithredir trosglwyddiadau) Ystyriwch: - Dylunio'r cwricwlwm (gan gynnwys paratoi ar gyfer <i>Dyfodol Llwyddiannus</i>) - Pwyntiau Trosglwyddo (o'r cartref i'r ysgol, o flwyddyn i flwyddyn, cynradd i uwchradd). - Ymagweddau pedagogaidd (gan gynnwys cyfeiriadau at arbenigedd pwnc ac ymagweddau cynradd i ddysgu).
Sesiynau 2 & 3	Darpar-athrawon i 'gwrdd' ag agweddau o drefniadau trosglwyddo sy'n ysgol-seiliedig.	Fe all hyn gynnwys: - Edrych ar adnoddau/dogfennau a rennir gyda staff /rhieni (polisiau/pecynnau)/gwefan yr ysgol. - Darllen neu wrando ar safbwyntiau plant am brofiadau. trosglwyddo e.e, o ddydd i ddydd, blwyddyn i flwyddyn, cyfnod i gyfnod, ysgol i ysgol. - Arsylwi ystod o ddosbarthiadau. - Siarad â dysgwyr ac aelodau staff. - Gwerthuso arsylwadau. - Cymharu a chyferbynnu â phrofiadau mewn ysgol/ion cynradd/uwchradd.
Sesiwn 4	Trafodaeth: Fel grŵp, mae darpar-athrawon yn adfyfrio ar y diwrnod ac yn casglu ynghyd eu canfyddiadau.	Fe all hyn gynnwys: - Darpar-athrawon i adfyfrio ar eu profiadau (rhannu gyda chyfoedion) a thrafod sut mae'r hyn maent wedi'i ddysgu yn mynd i ddylanwadu ar eu harferion addysgu nhw. - Darpar-athrawon i gyfeirio at wybodaeth a gasglwyd ganddynt yn ystod y profiad yn barod i'w chynnwys yn y PDP. - Treulio peth amser yn cyflawni Templod Profiad Proffesiynol (Tab 6) yn gysylltiedig â'r Safonau SAC perthnasol.

Cysylltiadau *posib* â'r Safonau SAC

Disgwylir i ddarpar-athrawon lan lwytho tystiolaeth o'r profiad Cyfnewid Cyfnod ar ffurf Templed Profiad Proffesiynol (TPP) yn gysylltiedig â'r Safonau SAC perthnasol (Tab 6)

Dyddiad	Ffocws	Safonau SAC
Mawrth 23-24	Trefniadau Trosglwyddo	Safon: Arweinyddiaeth Cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol Disgrifydd 'Ar y Trywydd lawn': Mae'r darpar athro'n arddangos dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau ac o gyfraniadau unigolion tuag at ethos yr ysgol a gwireddu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Safon: Dysgu Proffesiynol Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil Disgrifydd 'Ar y Trywydd lawn': Mae'r darpar athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd. Safon: Arloesi Datblygu technegau newydd Disgrifydd 'Ar y Trywydd lawn': Mae ymchwil ar ddatblygiad dirnadol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgeg. Mae'r darpar athro'n gallu arddangos sut y mae'n defnyddio'r dirnadaeth broffesiynol a dadansoddiad beirniadol i lunio a datblygu arferion.